Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cofnodion y Cyd-bwyllgor Archwilio**
**Dydd Mawrth 20 Medi 2016 am 10 o'r gloch y bore**
**Y Ganolfan Gydlynu Strategol, Pencadlys yr Heddlu**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** Mr Alasdair Kenwright | ) | |
| Mr Gawain Evans | ) | |
| Mr Malcolm MacDonald | ) | Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio |
| Mrs Ann Williams | ) | |

**Hefyd yn bresennol:**

Dafydd Llywelyn – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)
Adrian Williams – Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)
Edwin Harries – Cyfarwyddwr Cyllid (CC)
Carys Morgans – Pennaeth Staff (PS)
Jayne Woods – Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)
John Herniman – Swyddog Ymgysylltu, Swyddfa Archwilio Cymru (JH)
Leanne Malough – Arweinydd Tîm Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru (LM)
Jason Garcia – Rheolwr Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru (JG)
Jonathan Maddock – Rheolwr Cleientiaid, TIAA (JM)
Karen Davies - Cyfrifydd yr Heddlu (KD)
Sarah Welsby – Cyfrifydd yr Heddlu (Arsylwr)
Arolygydd Stuart Bell – eitem 12 ar yr agenda yn unig (SB)

## A60 2016/17 Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth Mr Simon Prince, Prif Gwnstabl, a Vicky Davies TIAA.

Er mwyn hwyluso llif cynnwys, cytunodd yr Aelodau i newid trefn yr agenda er mwyn trafod y Datganiad o Gyfrifon drafft cyn y Llythyr Sylwadau.

## A61 2016/17 Datgan buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## A62 2016/17 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2016

Cytunwyd bod cofnodion 21 Mehefin 2016 yn gofnod cywir.

## A63 2016/17 Materion yn codi

Cafwyd trafodaethau ynghylch y camau gweithredu o fewn y cofnodion. Ar gyfer diben eglurder a chwblhad, dosbarthwyd fersiwn derfynol o Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio.

## A64 2016/17 Datganiad Blynyddol o Gyfrifon Drafft 2015/16

## Datganiad o Gyfrifon y Prif Gwnstabl 2015/16

Mae'r Datganiad o Gyfrifon Drafft yn darparu gwybodaeth am sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol Prif Gwnstabl Dyfed-Powys ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16.

Hwn oedd y pedwerydd Datganiad o Gyfrifon i'w gynhyrchu gan y Prif Gwnstabl o dan y trefniadau a nodir yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 lle mae pob Prif Gwnstabl yn endid cyfreithiol neu'n 'unigolyn corfforaethol' ar wahân.

Roedd y DoG yn crynhoi Datganiad o Gyfrifon y Prif Gwnstabl ar gyfer 2015/16 ac yn tynnu sylw at y materion mwyaf arwyddocaol o fewn y cyfrifon yn ogystal â phwysleisio'r wybodaeth gyd-destunol berthnasol ar yr amgylchedd ariannol.

Gwnaeth yr aelodau sylwadau gan godi cwestiynau priodol.

Sylwodd AMSK ar yr Adroddiad Naratif hawdd i'w ddarllen a'i effeithiolrwydd.

Mewn ymateb i gwestiynau gan AMSK, rhoddodd y CC ddiweddariad ar faterion Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu y cyfeirir atynt ar dudalen 21, a chadarnhaodd fod y Cynllun Parhad Busnes i'w gyflwyno i'r Grŵp Prif Swyddogion ddiwedd Medi.

Nodwyd gwallau teipio a chadarnhawyd trefniadau ar gyfer cynnwys diwygiadau y tynnwyd sylw atynt.

Cyfeiriodd y CHTh at amser hollbwysig o'n blaenau mewn perthynas â Fformiwla Ariannu'r Heddlu. Cytunwyd i wahodd cynrychiolwyr a etholwyd yn lleol i uwch-gynhadledd mewn cyfarfod Bwrdd Plismona diweddar er mwyn rhoi dealltwriaeth glir o'r materion ariannu a'r pwysau a wynebir gan yr heddlu er mwyn sicrhau llais cryf ar gyfer Dyfed-Powys. Hefyd, cyfeiriodd y CHTh at gynlluniau CHTh yng Nghymru ar sail genedlaethol.

Byddai datrysiad i'r fformiwla ariannu'n debygol o ddod yn effeithiol yn 2018/19 fan cynharaf.

**Datganiad o Gyfrifon Drafft Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 2015/16 (Cyfrifon Grŵp)**

Cyflwynodd y PSA Ddatganiad o Gyfrifon 2015/16 (Cyfrifon Grŵp) ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n gyfuniad o Gyfrifon y Prif Gwnstabl a Chyfrifon Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Tynnodd y PSA sylw at elfennau allweddol o fewn y Cyfrifon Grŵp a oedd yn benodol ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Gwahoddwyd cwestiynau ar gynnwys y Cyfrifon Grŵp.

Sylwodd AMSK ar ddarn o gynnwys dyblyg a sylwodd MM ar rai gwallau teipio, gan awgrymu rhai newidiadau o ran ffurf ar gyfer dibenion eglurder. Gofynnodd MM am eglurhad ynghylch y ffigurau a nodwyd o dan 'Dyledwyr Tymor Hir'.

Canmolodd yr aelodau'r rhai a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith o baratoi'r ddau set o gyfrifon.

**Penderfyniad: Yn amodol ar gynnwys y diwygiadau a nodwyd, cymeradwywyd Datganiad o Gyfrifon Drafft y Prif Gwnstabl ar gyfer 2015/16 a Datganiad o Gyfrifon Drafft Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (Cyfrifon Grŵp) 2015/16 ar gyfer llofnod.**

**A65 2016/17 Llythyr Sylwadau Drafft 2015/16**

Amlinellodd JH y weithdrefn archwilio safonol fel rhan o gau'r cyfrifon. Dilynodd ddau lythyr sylwadau'r ddau set o gyfrifon.

Rhoddwyd mynediad llawn i'r holl wybodaeth berthnasol ofynnol a oedd angen wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon; roedd pob trafodyn, ased ac atebolrwydd wedi'i gofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu a'i adlewyrchu yn y datganiadau ariannol a doedd dim gwybodaeth archwilio berthnasol a fyddai'n effeithio ar y cyfrifon nad oedd yr Archwilwyr yn ymwybodol ohono.

Doedd dim cwestiynau i'w nodi.

**Penderfyniad: Cymeradwyodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl y Llythyr Sylwadau Drafft i'w lofnodi gan y llofnodwyr priodol.**

**A66 2016/17 Ymateb rheolwyr i ymholiadau'r archwilwyr ar drefniadau ar gyfer atal a datrys twyll.**

Amlinellodd JH y gofynion yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at un pwynt mân o ran geiriad mewn perthynas â thwyll. Nododd MM nad oedd yr adroddiad yn cynnwys llawer o gyfeiriad at waith a gyflawnwyd gan y Cyd-bwyllgor Archwilio ac awgrymodd y dylid ystyried hyn flwyddyn nesaf er mwyn cryfhau'r llythyr.

Dywedodd JG mai dogfen safonol flynyddol oedd y ddogfen hon a allai gael ei pharatoi'n ddelfrydol gan gyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf, gan roi cyfle i ychwanegu yn ôl yr angen cyn llofnodi'r cyfrifon ym mis Medi.

**Penderfyniad: Cyflwyno'r eitem fusnes hon yng nghyfarfod mis Gorffennaf yn y dyfodol.**

**Penderfyniad: Pwysleisio swyddogaeth graffu'r Cyd-bwyllgor Archwilio o fewn y ddogfen yn y dyfodol.**

**Penderfyniad: Roedd yr aelodau'n cytuno ag ymateb rheolwyr i'r ymholiadau archwilio ar drefniadau ar gyfer atal a datrys twyll.**

**A67 2016/17 Llythyr Rheoli ac Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru 2015-16**

Mae'r adroddiad yn rhoi barn ynghylch pa un ai a yw datganiad ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys yn cynnig barn deg ynghylch eu sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2016 a'u hincwm a'u gwariant ar gyfer diwedd y flwyddyn.

Adlewyrchodd JH ar sylwadau blaenorol ynglŷn â'r ffaith bod y cyfrifon yn anodd eu deall a chanmolodd bawb a oedd yn gysylltiedig â pharatoi'r ddwy set o gyfrifon a'r papurau gweithio ategol er mwyn caniatáu proses archwilio esmwyth.

Roedd pob diwygiad y cyfeiriwyd atynt wedi'u cynnwys, ac roedd y cyfrifon mewn sefyllfa i gael eu llofnodi gyda barn ddiamod yn dilyn mân wybodaeth ac ymholiadau sy'n weddill, a chymeradwyaeth dilynol gan y Pwyllgor.

Nid oedd pryderon ynghylch agweddau ansoddol yr arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol ac ni phrofwyd anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.

Tynnodd JH sylw at yr her a'r pwysau ar y tîm ariannol yn y dyfodol er mwyn cau'r cyfrifon yn gynt.

Roedd dau fater a drafodwyd yn flaenorol, sef materion a drafodwyd gyda rheolwyr, yn werth eu hadrodd a'u dwyn i sylw'r aelodau. Roedd un yn ymwneud â dyfarniad llys 'Milne yn erbyn Adran Actwari'r Llywodraeth' ac roedd y llall yn ymwneud â Rheoli Cyfrifon Cysoni. Roedd JH yn fodlon bod y ddau fater wedi'u trin yn briodol.

Mewn perthynas â Rheoli Cyfrifon Cysoni ac er mwyn eglurder, gofynnodd y Cadeirydd am fynegiad ar y cyfnod pan nad oedd cysoni misol wedi digwydd er mwyn cael syniad o'r maint.

Mewn perthynas â'r dyfarniad llys 'Milne', nododd MM y byddai'n werth cofnodi bod y Swyddfa Gartref wedi setlo'r atebolrwydd rhag ofn y bydd unrhyw hawliadau yn y dyfodol.

Adleisiodd y CC deimladau cynharach a diolchodd i aelodau'r Tîm Cyllid am eu gwaith caled o ran y broses cyfrifon.

Cyfeiriodd JG at gynlluniau mewnol sydd ar ddod gan y CC a'r PSA a'u timoedd, ynghyd â chynlluniau Swyddfa Archwilio Cymru o safbwynt archwilio i adolygu'r broses o gau a phennu meysydd ar gyfer gwella er mwyn bodloni'r amserlen fyrrach yn y dyfodol.

Crynhodd JG y terfynau amser ar gyfer cynnwys diwygiadau a llofnodion a'r dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi ar wefan yr heddlu a SCHTh.

**Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Archwilio ar y Datganiad o Gyfrifon a'r Llythyr Rheoli.**

**A68 2016/17 Adroddiad cynnydd yr archwilwyr mewnol – Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno**

Roedd yr adroddiad cryno'n rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd o ran gwaith ar 13 Medi 2016. Roedd pob archwiliad a oedd wedi'i gwblhau ar yr agenda ar gyfer trafodaeth.

Roedd gwaith wedi'i gwblhau ar yr argymhelliad Blaenoriaeth 1 a oedd yn aros ac wedi'i drefnu ar gyfer llofnod y Grŵp Prif Swyddogion ddiwedd y mis. Mewn perthynas â Rheoli Adnoddau Dyletswyddau, mynegodd MM bryder ynghylch yr amser rhwng cyhoeddi'r drafft i ymatebion gan reolwyr. Roedd MM yn gwerthfawrogi natur gymhleth y maes a rhoddodd SW esboniad ynghylch y mater.

**Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor adroddiad cynnydd yr archwilwyr mewnol.**

**A69 2016/17 Adroddiadau Archwilwyr Mewnol**

**a) Adroddiad Sicrwydd Diogelwch TGCh – Sicrwydd Data**

Roedd yr adolygiad yn ystyried trefniadau ar gyfer y broses gymeradwyo ar gyfer caniatáu cyflwyno data electronig i drydydd partïon, y trefniadau diogelwch data a'r trefniadau cludo sydd wedi'u llunio ar gyfer lleihau mynediad anawdurdodedig i'r data pan fydd yn cael ei gludo, a'r trefniadau monitro.

Rhoddodd yr adolygiad sicrwydd rhesymol gydag un argymhelliad blaenoriaeth 2 ar y gofyniad i gydymffurfio â Deddfau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data gan gyfeirio'n benodol ar Weithdrefn Camymddwyn Staff Heddlu. Roedd rheolwyr wedi derbyn yr

argymhelliad a chadarnhaodd y CA bod gwaith yn digwydd mewn perthynas â'r maes gwaith hwn o fewn y sefydliad.

Canmolodd yr aelodau'r adroddiad cynhwysfawr a'r elfennau gwaith a drafodwyd o fewn yr ymarfer adolygu.

Mewn perthynas â risg, awgrymodd MM y dylid ystyried eitem sefydlog ar adrodd am unrhyw dor rheol o ran datgelu data. Cytunodd yr aelodau i hyn.

**Penderfyniad: Cytunodd yr aelodau i ychwanegu eitem sefydlog ar adrodd am unrhyw dor rheoliadau.**

**b) Rheoli Amser Hyblyg AD**

Roedd yr adolygiad yn ystyried effeithiolrwydd rheoli a monitro trefniadau amser hyblyg a gwyliau hyblyg, gan gynnwys yr effaith ar gyflwyno gwasanaethau cyfredol.

Roedd yr adolygiad yn gwobrwyo sicrwydd rhesymol gyda 3 argymhelliad blaenoriaeth 2, 3 argymhelliad cyffredin ac un argymhelliad gweithredol. Derbyniwyd pob un ohonynt. Esboniodd JM ganfyddiadau allweddol yr adolygiad a rhoddwyd eglurhad ynghylch y system hyblyg mewn perthynas â chyfrifyddu oriau hyblyg ar gyfer staff rhan amser.

**c) Cyflogres – Trefniadau Gwrthdwyll**

Roedd yr adolygiad yn profi ar gyfer amlygiad posibl i dwyll oherwydd methiant i gydymffurfio â threfniadau cyflogres y sefydliad a/neu ddidoliad annigonol neu aneffeithiol o ran dyletswyddau.

Gwobrwyodd yr adolygiad sicrwydd sylweddol ac ni nodwyd unrhyw faterion arwyddocaol. Roedd hi'n galonogol bod rheoliadau digonol ar gyfer pob maes a adolygwyd wedi'u nodi â didoliad effeithiol o ran dyletswyddau a chymeradwyaethau o fewn prosesau cyflogres a goruchwyliaeth a ddarparwyd gan yr Uned Cymorth Busnes.

**ch) Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus**

Roedd yr adolygiad yn gwerthuso'r trefniadau ar gyfer monitro Cwynion Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus a dderbyniwyd a sicrhau bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd yn brydlon.

Gwobrwywyd sicrwydd cyfyngedig i'r adolygiad gyda 5 argymhelliad blaenoriaeth 2, 4 argymhelliad rheoliad a 2 argymhelliad gweithredol.

Cafwyd trafodaeth hir ynghylch y canfyddiadau allweddol ac roedd rheolwyr wedi derbyn yr holl argymhellion. Yn hanfodol i'r argymhellion yr oedd y mater adnoddau a oedd wedi atal cyflwyno'r lefel gwasanaeth dymunol.

O ganlyniad i'r adolygiad, sicrhaodd y CHTh yr aelodau a chyfeiriodd at gynlluniau ar gyfer ymagwedd safonol tuag at gwynion ar gyfer yr heddlu a SCHTh. Cyfeiriodd y CHTh ar newidiadau o fewn y Bil Plismona mewn perthynas â ffyrdd y mae anfodlonrwydd a chwynion yn cael eu trin. Hefyd ar sail Cymru Gyfan, cyfeiriodd y CHTh at ffordd gyson y mae'r cyhoedd yn cysylltu â'r gwasanaeth heddlu mewn perthynas ag anfodlonrwydd a chwynion a oedd yn ffurfio'r sail ar gyfer gwaith parhaus er mwyn adolygu'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus. Roedd y CHTh yn ddiolchgar am yr adolygiad oherwydd roedd yn caniatáu ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau.

Cyfeiriwyd at gyfathrebu corfforaethol a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol fel ffordd o gynnig ymateb cyflym a lleihau'r lefel o bryderon.

Cyfeiriodd MM at fecanweithiau a ddefnyddiwyd gan Ombwdsmon y sefydliad ar ffyrdd o ymdrin ag unigolion parhaus.

Rhoddodd y CHTh sicrwydd i aelodau drwy ei gysylltiad personol wrth iddo gwrdd ag unigolion parhaus.

Cyfeiriodd y PS at adolygiad o'r SGC er mwyn edrych ar well system fusnes drwy ymgysylltu a fydd yn cael ei adrodd yn ôl i'r CHTh a'r PG erbyn diwedd Tachwedd er mwyn penderfynu ar ffordd ymlaen.

**d) Rheoli Adnoddau Dyletswyddau**

Roedd yr adolygiad yn ystyried effeithlonrwydd Rheoli Adnoddau Dyletswyddau. Rhoddwyd sicrwydd rhesymol i'r adolygiad gyda 4 argymhelliad blaenoriaeth 2.

Mewn perthynas â'r argymhelliad nad oedd cytundeb ffurfiol mewn grym ar gyfer y patrwm sifft 4 diwrnod o waith, pedwar diwrnod i ffwrdd ar gyfer Arfau Saethu a Hyfforddi Gyrwyr, roedd yr archwilwyr yn cydnabod y rhesymau dros beidio â derbyn yr argymhelliad hwn.

Darparwyd eglurhad pellach ar reoli galw a sut yr oedd adnoddau'n cael eu rheoli a'u halinio'n dda ar gyfer bodloni galw.

Gofynnodd y CHTh am eglurhad a chwestiynodd unrhyw newid i elfen Hyfforddi Gyrwyr y rota mewn perthynas â nifer y dyddiau o bedwar i bum diwrnod o ran cysondeb â heddluoedd eraill yng Nghymru.

**dd) Ailhyfforddi Gyrwyr**

Roedd yr adroddiad yn gwerthuso'r trefniadau rheoli a monitro ar gyfer y rhaglen ailhyfforddi gyrwyr. Rhoddwyd sicrwydd rhesymol i'r adolygiad, gyda 2 argymhelliad blaenoriaeth 2, 2 argymhelliad cyffredin ac un argymhelliad gweithredol. Derbyniwyd yr holl argymhellion hyn.

Canlyniad cadarnhaol o'r adolygiad oedd bod argymhelliad gweithredol a weithredwyd er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar yr Heddlu fel mesur effeithlonrwydd wedi arbed amser adnoddau.

**e) Trefniadau Hawliadau Teithio a Threuliau Electronig**

Roedd yr adroddiad yn gwerthuso'r trefniadau ar gyfer y broses hawliadau teithio a threuliau electronig. Roedd yr adolygiad yn drosolwg o'r rheoliadau sydd mewn grym, a rhoddwyd sicrwydd rhesymol gydag un argymhelliad blaenoriaeth 2, 3 argymhelliad cyffredin ac un argymhelliad gweithredol.

Roedd hon yn broses newydd ac yn newid busnes o fewn yr Heddlu. Roedd y gofyniad ar gyfer adroddiad i restri pob hawliad milltiroedd a threuliau misol i'r Cyfarwyddwyr eisoes wedi'i weithredu gan arwain at arbed amser o fewn y maes cyflogres.

Adroddodd MM ar yr amrediad o adroddiadau o safon uchel a dderbyniwyd gan archwilwyr mewnol sy'n adlewyrchu'r math o waith sy'n cael ei gyflawni. Roedd yr

archwilwyr mewnol yn darparu gwasanaeth ardderchog drwy edrych yn drylwyr ar feysydd busnes a gwneud argymhellion gwerthfawr.

**Penderfyniad: Bod y Pwyllgor yn nodi adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol.**

## A70 2015/16 Gweithgarwch AHEM

Tynnodd SB sylw at feysydd allweddol mewn perthynas â chyhoeddi adroddiadau diweddar. Darparwyd diweddariad ar drefniadau llywodraethu yn dilyn archwiliad PEEL y gwanwyn.

Roedd gwaith mewn paratoad ar gyfer Archwiliad Effeithlonrwydd PEEL 2016 yn derbyn blaenoriaeth. Byddai stelcio ac aflonyddu'n rhan fawr o'r archwiliad i ddod.

Nid oedd cwestiynau i'w nodi a diolchwyd i SV am y diweddariad ar faterion AHEM.

**Penderfyniad: Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad ar weithgarwch AHEM.**

## A71 2015/16 Rheoli Trysorlys

Amlinellodd y PSA ofynion Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys yn ôl pa rai y gwneir dau adroddiad ar y swyddogaeth rheoli trysorlys pob blwyddyn. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa diwedd flwyddyn ar gyfer 2015/16 a sefyllfa canol blwyddyn ar gyfer 2016/17.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2015/16 cydymffurfiodd y swyddogaeth rheoli trysorlys â'i arferion rheoli trysorlys. Fodd bynnag, torrwyd dau ddangosydd cynghorus yn ystod y cyfnod hwnnw a rhoddwyd rheswm dros hyn. Cyfeiriwyd at y testun a'r darluniau ar y toriadau hynny o fewn yr adroddiad.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried Adroddiad Alldro'r Trysorlys ar gyfer 2015/16 a'r adroddiad canol blwyddyn ar gyfer 2016/17 a sylwi arnynt. Hefyd, gofynnwyd i'r Pwyllgor sylwi ar y cynnig i gynyddu'r Dangosydd Rheoli Trysorlys ar gyfer canran y ddyled sefydlog sy'n daladwy dros 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd i 70% ar gyfer 2016/17.

Awgrymodd MM bod y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cyflawni a diwygiadau'n cael eu gwneud yn ôl yr angen. Cytunodd yr aelodau i hyn.

**Penderfyniad: Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad ar Reoli Trysorlys ac yn cytuno i'r argymhellion fel sydd wedi'u gosod o fewn yr adroddiad.**

**Penderfyniad: Cytunodd y Comisiynydd i gymeradwyo newid i ganran y ddyled sefydlog sy'n aeddfedu dros 5 mlynedd ond o fewn 10 mlynedd i 70% (er mwyn caniatáu ar gyfer dyled hanesyddol) yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2016/17.**

## A72 2015/16 Cofnodion Grŵp Llywodraethu Corfforaethol 6 Medi 2016

Aeth MM i'r cyfarfod, a chafodd gyfle i drafod newidiadau a gynigiwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor Archwilio, sef mecanweithiau o gwmpas y datganiad o reoliadau mewnol, agweddau o gyflwyno polisïau cyfrifyddu ac ymagwedd i annog ymatebion prydlon gan reolwyr.

Ar ôl cyflwyno'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol newydd, cyfeiriodd y CC ar waith a fydd yn cychwyn cyn hir ar gyfer cynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor gofnodion y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 6 Medi 2016.**

**A73 2015/16 Hyfforddiant ar gyfer y Cyd-bwyllgor Archwilio**

Roedd Heddlu Gwent wrthi'n cydlynu digwyddiad hyfforddi i'w gynnal yng nghanolbarth Cymru. Gofynnwyd i aelodau ddweud pryd oeddent ar gael i fynychu cyfarfod o'r fath ym mis Tachwedd, Rhagfyr neu Ionawr.

**A74 2015/16 Unrhyw Fusnes Arall**

i. Cadarnhawyd mai'r dyddiadau cyfarfod ar gyfer 2017 oedd 29 Mawrth, 11 Gorffennaf, 19 Medi a 6 Rhagfyr. Anfonwyd y dyddiadau hyn i'r aelodau ar ôl y cyfarfod.

ii. Roedd tymor mewn swydd dau aelod pwyllgor ar fin dod i ben, ac felly roedd angen hysbysebu ar gyfer aelodau newydd. Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi nad oes modd i aelod wasanaethu am fwy nag 8 mlynedd. Y mwyaf yr oedd unrhyw aelod presennol wedi gwasanaethu oedd pedair blynedd, sy'n golygu bod unrhyw aelod cyfredol yn medru gwneud cais os ydynt yn dymuno hynny. Roedd dyddiadau ar gyfer cyfweliadau wedi'u trefnu.

    Roedd aelodaeth o'r Pwyllgor yn cynnwys 5 aelod ar y cychwyn, a chadarnhawyd y bwriad i ddychwelyd i 5 aelod.

iii. Rhoddodd y PS a'r CHTh ddiweddariad ar y broses o recriwtio Prif Gwnstabl. Yn dilyn proses ymgeisio a dethol trylwyr, roedd y CHTh wedi dewis ei ymgeisydd o ddewis, a bydd hyn yn cael ei gadarnhau mewn gwrandawiad o;'r Panel Heddlu a Throseddu ddiwedd y mis. Mynegodd y CHTh ei ddiolch i'r PS ar y lefel o broffesiynoldeb o ran y gwaith a gyflawnwyd ar gyfer y broses recriwtio. Diolchodd yr aelodau i'r PS a'r CHTh am y diweddariad.

iv. Cyfeiriodd MM at adroddiad a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y datrysiad technegol ar gyfer y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys a thynnodd sylw at y peryglon ariannol posibl ar y rhaglen gyfalaf a allai godi o ganlyniad. Yr oedd yn bryder i'w ystyried yn y dyfodol ar nifer o faterion, nid materion ariannol yn unig. Byddai'r CHTh a'r PG yn derbyn diweddariadau o dro i dro ar lefel ranbarthol a thrwy'r PG fel Cadeirydd y Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd. Roedd llawer o waith i'w wneud a chytunwyd y byddai hynny'n cael ei drafod yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio pan yn briodol.

    **Penderfyniad: Cytunodd yr Aelodau i gyflwyno'r mater sy'n ymwneud â'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys i'r Pwyllgor ar gyfer trafodaeth ar adeg briodol.**

Nid oedd eitemau busnes eraill i'w trafod.

Trefnwyd y cyfarfod nesaf ar gyfer 6 Rhagfyr 2016.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.55y.b.**